



Cyngor Tref Caerfyrddin  
Neuadd Ddinesig San Pedr  
1, Maes Nott  
Caerfyrddin  
SA31 1PG  
[alun@carmarthentowncouncil.gov.uk](mailto:alun@carmarthentowncouncil.gov.uk)  
Ffôn: 01267 235199

## CYNGOR TREF CAERFYRDDIN RHYBUDD PREIFATRWYDD

### **Pan fyddwch yn cysylltu â ni**

Bydd y wybodaeth yr ydych yn darparu (gwybodaeth bersonol megis enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, sefydliad) yn cael ei brosesu a'i gadw er mwyn ein galluogi i gysylltu â chi ac ymateb i'ch gohebiaeth, darparu gwybodaeth a/neu gael gweld ein cyfleusterau a gwasanaethau. Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu na'i rhoi i drydydd parti heb eich caniatâd ysgrifenedig.

### **Hawliau'r Cyngor i Brosesu Gwybodaeth**

Rheolau Cyffredinol Amddiffyn Data Erthygl 6 (1) (a) (b) a (e)

Mae prosesu gyda chaniatâd deiliad y data; neu  
Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol; neu  
Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer tasg i'w chario allan er budd y cyhoedd neu mewn gweithred o awdurdod swyddogol sydd wedi ei ymddiried yn y rheolydd.

### **Diogelwch Gwybodaeth**

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Tref Caerfyrddin i sicrhau diogelwch data personol. Rydym yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei ddiogelu oddi wrth unrhyw fynediad anawdurdodedig, colled, trin, ffugio, dinistrio neu ddatgelu heb awdurdod. Mae hyn yn cael ei wneud drwy'r mesurau technegol priodol a'r polisiau priodol.

Dim ond am y pwrpas y casglwyd y data a'r cyfnod sydd ei angen y bydd yn cael ei gadw, wedi hyn y bydd yn cael ei ddileu. Gellir gofyn i Gyngor Tref Caerfyrddin ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch unrhyw bryd.

## Plant

Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata yn ymwneud â phlant (o dan 13) heb ganiatâd pendant rhiant/gwarcheidwad y plentyn dan sylw.

## Mynediad i Wybodaeth

Mae gennych yr hawl i ofyn i gael gweld y wybodaeth sydd gyda ni amdanoch. Gallwch neud hyn drwy gysylltu gyda'n Swyddog Gwybodaeth Data: Eleri James - [eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk](mailto:eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk) <<mailto:eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk>>

## Cywiros Gwybodaeth

Os ydych yn credu bod y wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir, gallwch gysylltu â ni er mwyn i ni ddiweddarau eich manylion. I geisio am hyn cysylltwch â: Eleri James - [eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk](mailto:eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk) <<mailto:eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk>>

## Dileu Gwybodaeth

Os ydych yn dymuno i Gyngor Tref Caerfyrddin ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yna cysylltwch â: Eleri James - [eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk](mailto:eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk) <<mailto:eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk>>

## Hawl i Wrthwynebu

Os ydych yn credu bod eich data ddim yn cael ei brosesu am y pwrpas a'i casglwyd gallwch wrthwynebu drwy gysylltu â: Eleri James - [eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk](mailto:eleri@carmarthentowncouncil.gov.uk)

## Hawliau yn Ymwneud â Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd a Phroffilio

Nid yw Cyngor Tref Caerfyrddin yn defnyddio unrhyw fodd o benderfyniadau awtomataidd na phroffilio data personol unigolyn.

**Casgliad:** Yn unol â'r gyfraith, rydym ond yn casglu gwybodaeth amdanoch sydd angen ar gyfer gohebiaeth, gwybodaeth a darpariaeth gwasanaeth. Nid ydym yn defnyddio proffilio, na chwaith yn gwerthu neu basio ymlaen eich data at drydydd parti. Nid ydym yn defnyddio'ch data am unrhyw reswm heblaw'r rhai penodol. Rydym yn sicrhau bod eich data yn cael ei gadw'n ddiogel. Dilëir pob gwybodaeth nad oes pellach eu hangen. Adolygir ein Polisiâu Preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn eu cadw fyny gydag amddiffyn eich data. (Gallwch geisio am gopi o'm polisiâu unrhyw bryd).

## Cwynion

Os oes gennych gwyn ynglŷn â'r ffordd mae eich data personol yn cael ei brosesu yna gallwch gwyno i Glerc Cyngor Tref Caerfyrddin - [alun@carmarthentowncouncil.gov.uk](mailto:alun@carmarthentowncouncil.gov.uk) Ffôn: 01267 235199 a hefyd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk) Ffôn: 0303 123 1113